

Canolfan Ailgylchu Gwastraff Cartref Gwalchmai – Gwybodaeth am Ailagor

Bydd Cyngor Sir Ynys Môn yn ailagor ei Ganolfan Ailgylchu Gwastraff Cartref (CAGC) yng Ngwalchmai ar ddydd Iau, Gorffennaf 2il, 2020.

Cafodd dwy ganolfan ailgylchu'r Ynys eu cau ym mis Mawrth yn sgil y Coronafeirws, gyda Chanolfan Penhesgyn yn ail-agor ar 2il Mehefin, 2020.

Er mwyn sicrhau iechyd a diogelwch y cyhoedd a staff bob amser yn ystod ymweliadau â Chanolfan Gwalchmai, rydym wedi cyflwyno'r amodau llym canlynol:

MATERION PWYSIG I'W HYSTYRIED CYN YMWELD Â CHANOLFAN GWALCHMAI

- Peidiwch ag ymweld os ydych chi neu unrhyw un yn eich cartref yn hunan-ynysu, gyda symptomau Covid-19 neu'n cysgodi ar hyn o bryd.
- Ni ddylech ond ymweld os na allwch gadw eich gwastraff / deunydd ailgylchu'n ddiogel gartref. Peidiwch â mynd oni bai ei fod yn hanfodol.
- Bydd Gwalchmai yn ailagor ar ddydd Iau, Gorffennaf 2il, 2020; ac ond ar agor wedyn o ddydd Llun i ddydd Gwener, 10.00yb-2.30yp.
- Dim ond ceir a ganiateir ar y safle.
- Ni chaniateir trelars, faniau na thryciau (pick-ups) ar y safle (hyd yn oed gyda thwydded ar eu cyfer).
- Dim ond un person ym mhob car (dim ond y gyrrwr gaiff fynediad)

ARCHEBU EICH YMWELIAD Â CHANOLFAN GWALCHMAI

- Dim ond ymweliadau a archebwyd ymlaen llaw trwy wefan Cyngor Sir Ynys Môn: <https://www.ynysmon.gov.uk/cy/Fy-Nghyfrif.aspx> a dderbynnir
- Rhaid bod gennych gyfrif eisoes neu bydd angen i chi greu cyfrif newydd er mwyn archebu ar-lein
- Bydd deiliaid tai yn cael archebu ymweliad ar-lein drwy 'Fy Nghyfrif' ar y wefan o 9.00yb-1.00yp ar Ddydd Mercher, Gorffennaf 1af.
- Rhoddir y slotiau archebu canlynol i ddeiliaid tai: 10.00yb-10.30yb, 10.30yb-11.00yb, 11.00yb-11.30yb, 11.30yb-12.00yp, 12.00yp-12.30yp, 12.30yp-1.00yp, 1.00yp-1.30yp, 1.30yp-2.00yp, 2.00yp-2.30yp.
- Bydd y nifer o ymweliadau ar-lein ellir eu harchebu wedi eu cyfyngu er mwyn cwrdd ag anghenion iechyd a diogelwch
- Dim ond un ymweliad a ganiateir i bob cartref yn ystod y cyfnod cychwynnol yma
 - Gofalwch eich bod yn cyrraedd AR AMSER – plis peidiwch a chyrraedd yn gynarach/hwyrach

CYRRAEDD CANOLFAN GWALCHMAI

- Mae'n debygol y bydd ciwiau yn y ganolfan ailgylchu oherwydd cyfyngiadau ar nifer y bobl sy'n cael mynd i mewn ar y tro ac arolygon pellach.
- Ni fyddwch yn cael mynd i mewn i'r safle heb gyfeirnod archebu dilys neu os ydych yn methu cwrdd â'r meini prawf mynediad a nodir uchod

- Cadwch at y system rheoli traffig a'r arwyddion cyfarwyddiadau os gwelwch yn dda

TRA BYDDWCH AR SAFLE CANOLFAN GWALCHMAI

- Cadwch at y system rheoli traffig a'r arwyddion cyfarwyddiadau ar y safle os gwelwch yn dda
- Mae'n hanfodol eich bod chi'n cofio rheolau cadw pellter cymdeithasol ac yn dilyn unrhyw negeseuon diogelwch eraill sydd mewn grym
- Ni fydd ein staff yn gallu eich helpu i godi a chario eich gwastraff (dewch ag eitemau y gallwch godi a'u symud ar ben eich hun yn unig).
- Byddwch yn amyneddgar a pharchwch y staff sy'n gweithio yn y ganolfan bob amser os gwelwch yn dda.

Ni chaniateir i ddeiliaid cartrefi ddod ar y safle i gael gwared ar eu gwastraff os nad ydynt yn cadw at y canllawiau defnydd sydd mewn lle.

Eglurodd Annwen Morgan, Prif Weithredwr Cyngor Sir Ynys Môn, "Mae ein tîm Rheoli Gwastraff wedi bod yn gweithio'n galed i sicrhau y gallwn ailagor ein canolfannau ailgylchu gwastraff cartref mewn modd diogel."

"Maent wedi datblygu dull gofalus a graddol o ddod â'r gwasanaethau pwysig yma yn ôl i'r drefn arferol – Penhesgyn yn gyntaf ac erbyn hyn Canolfan Gwalchmai. Mae iechyd a diogelwch trigolion a'n staff yn parhau'n flaenoriaeth a gofynnir i'r rheini sy'n ymweld â'r safle o ddydd iau ymlaen i ddilyn y canllawiau a sefydlwyd a chadw at y rheolau pellter cymdeithasol."

Ychwanegodd y deilydd portffolio ar gyfer Priffyrdd, Eiddo a Gwastraff, y Cynghorydd Bob Parry, "Mae'n debygol y bydd galw sylweddol am y gwasanaeth yn ystod yr wythnos gyntaf, felly rydym yn gofyn i drigolion ymweld â Chanolfan Gwalchmai dim ond os na allant gadw eu gwastraff neu eu deunydd ailgylchu ychwanegol gartref am y tro. Peidiwch â mynd yno oni bai bod eich ymweliad yn hanfodol ac eich bod yn cwrdd â'r gofynion mynediad igyd, neu ymweld â Phenhesgyn lle gellid rheoli mwy o ddefnyddwyr yn ddiogel, os gwelwch yn dda."

"Mae diogelwch y cyhoedd a'n staff yn hollbwysig, a dylid dilyn y canllawiau sydd ar waith bob amser."

Mae canolfan Gwalchmai wedi'i lleoli ar yr A5, tu allan i Walchmai, ar ochr Caergybi o'r pentref. Gellir ei gyrraedd o'r A55 (Cyffordd 5).

Diwedd 30.6.20

Nodiadau i Olygyddion:

Mae Canolfan ailgylchu Gwastraff Cartref Penhesgyn wedi ailagor yn gyntaf gan ei fod yn cynnig safle mawr ar lefelau gwahân gyda threfn rheoli traffig da eisoes ar waith. Mae ffordd gymharol hir sydd ym mherchnogaeth y Cyngor yn arwain o'r briffordd fabwysiedig i'r Ganolfan sy'n caniatáu ar gyfer cyfleoedd ciwio diogel. Bydd

ein safle yng Ngwalchmai yn ail agor o dan gapasisti cyfyngedig oherwydd ei fod mor agos i ffordd yr A5 fyddai'n golgyu risgiau trafndiaeth.

Mae'r Cyngor wedi ailgyflwyno ei wasanaeth casglu gwastraff swmpus yn raddol fel dewis arall yn hytrach nag ymweld â Chanolfannau Ailgylchu Gwastraff Domestig Penhesgyn a Gwalchmai. Ychydig o slotiau fydd ar gael ar y cychwyn ond gobeithir y gellir cynnig mwy yn ystod yr wythnosau nesaf. Gellir archebu casgliadau gwastraff swmpus yn y ffordd arferol drwy gysylltu ag Adran Rheoli Gwastraff y Cyngor ar 01248 750057 (Opsiw 7).